# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2022

Amser: 09.00 - 09.18

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.05pm.

- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Cynllun Gweithredu newydd ar Anabledd Dysgu (45 munud)~~ - Tynnwyd yn ôl
- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)
    - **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd - cynnig 1**
    - **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd - cynnig 2**

Yn dilyn gohebiaeth a dderbyniwyd gan y Trefnydd, nododd y Llywydd ei bod wedi rhoi ei chytundeb, yn unol â Rheol Sefydlog 33.8, y gallai'r Senedd ystyried y Cynnig i Atal Rheolau Sefydlog heddiw yng ngoleuni'r amserlenni ynghylch ystyried Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd yn Senedd y DU.

Cadarnhaodd y Llywydd ei bod wedi derbyn Cwestiwn Brys i'w ofyn ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ar Wcrain.

Dywedodd y Llywydd hefyd y byddai ffotograffydd yn bresennol yn y Siambr am gyfnod byr ar ddechrau'r Cwestiynau i'r Prif Weinidog.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

**Fformat y Cyfarfod Llawn**

Cadarnhaodd y Llywydd y bydd cynllun eistedd sefydlog ar waith ar gyfer y Cyfarfod Llawn o heddiw ymlaen, ar ôl dileu'r cyfyngiadau ar nifer yr Aelodau sy'n gallu bod yn y Siambr ar unrhyw adeg.

**3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 8 Mawrth 2022 –**

- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Cymru Gryfach, Decach, Wyrddach: Cynllun ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau (45 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhent Masnachol (Coronafeirws) (15 munud)

**Dydd Mawrth 15 Mawrth 2022 –**

- Dadl: Ail Gyllideb Atodol 2021-22 (30 munud)

- Dadl:  Diwygiad i Setliad Llywodraeth Leol 2021-2022 (15 munud)

Gofynnodd Darren Millar a yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i wneud datganiad llafar ar y trefniadau ar gyfer erthyliad meddygol cynnar gartref, yn dilyn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror. Cytunodd y Trefnydd i ddarparu rhagor o wybodaeth ar ffurf nodyn i Aelodau'r Pwyllgor Busnes.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 23 Mawrth 2022 -**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cyfeiriad newydd ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm – Mynd i'r afael â diffyg gyrwyr cerbydau nwyddau trwm a phroblemau cysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Heledd Fychan (Canol De Cymru) (30 munud)

### 3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynigion ar gyfer Dadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 9 Mawrth 2022:

**NNDM7925 Mike Hedges**

Cynnig bod y Senedd:

Yn cefnogi datganoli plismona.

**Cyd-gyflwynwyr**

Alun Davies

Jane Dodds

Delyth Jewell

Rhys ab Owen

**Cefnogwyr**

Sarah Murphy

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2022

Nododd y Pwyllgor Busnes y bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn adrodd ar y rheoliadau hyn cyn y ddadl heddiw yn y Cyfarfod Llawn.

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cafodd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol a chytunodd:

- i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Adeiladau at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 22 Mawrth.
- i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Plismona, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd at bwyllgor i graffu arno yng ngoleuni'r ddadl y bwriedir ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma.

- i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaetho Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) tan 31 Mawrth 2022.
- i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Rhent Masnachol (Coronafeirws), sydd i'w osod yr wythnos hon, at bwyllgor i graffu arno yng ngoleuni'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn y bwriedir ei chynnal ar 8 Mawrth 2022.

## 5 Amserlen y Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cais i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnal cyfarfod ychwanegol ar fore 28 Mawrth 2022.

## 6 Unrhyw faterion eraill

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa gan y Llywydd i ymgynghori â'u grwpiau ar y diwygiadau arfaethedig i amserlen y pwyllgorau gyda'r bwriad y bydd y Pwyllgor Busnes yn gwneud penderfyniadau yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.